



**Cyngor Gweithredu
Gwirfoddol Cymru**

**Dyddiad cyhoeddi:
3 Mehefin 2013**

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mehefin 2013

Cynnwys

[Ydych chi'n chwilio am gyllid?](#)

[Contractau a thendrau](#)

[Cyllid](#)

[Cyffredinol](#)

[Newyddion gwyrdd](#)

[Blogiau a chyhoeddiadau JRF](#)

[Bwletin Ymgynghorol Llywodraeth Leol](#)

[Polisi](#)

[Hyfforddiant](#)

[Nôl i'r cynnwys](#)

Ydych chi'n chwilio am gyllid?

Os ydych chi'n chwilio am gyllid ar gyfer eich mudiad neu eich prosiect, gall WCVA chwilio am gyllid ar gyfer ei aelodau ar Grantfinder. Cysylltwch â'r Lein Gymorth ar 0800 2888 329, help@wcva.org.uk.

Os ydych chi'n fudiad lleol, gall eich cyngor gwirfoddol sirol roi cyngor i chi ynghylch cyllid. I gael manylion cyswllt eich cyngor gwirfoddol sirol, cliciwch [yma](#).

[Nôl i'r cynnwys](#)

Contractau a thendrau

Os ydych am hyrwyddo eich mudiad gerbron prynwyr sector cyhoeddus a chael gwybodaeth rad ac am ddim ynghylch tendrau a chontractau perthnasol dros yr e-bost, cofrestrwch gyda Gwerthwch i Gymru - www.gwerthwchigymru.co.uk.

Enw swyddogol a chyfeiriad yr awdurdod sy'n cynnig y contract

Mudiad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

At sylw: Angharad Owen, Llawr 1^{af}, Adeiladau'r Goron, 31 Stryd Caer, Wreccsam LL13 8BG. Ffôn 01978 298665, ebost Angharad.owen@wrexham.gov.uk.

Amcan y contract

Darparu gwasanaethau eiriolaeth - eiriolaeth 'cyhoeddiad sengl' a hunaneiriolaeth a chyfranogaeth

Mae Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam:

- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl ag anableddau corfforol
- Pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd
- Pobl â nam ar y synhwyrau
- Pobl dros 65 mlwydd oed

DS. Bydd pobl sydd angen eiriolwr lechyd Diogelwch yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol a gomisiynir gan Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Dylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu mewn ffordd sydd wedi'i seilio ar fanyleb y gwasanaeth, ac yn briodol iddi. Mae'r fanyleb ar gael yn nogfennau'r Tendr.

Bydd y gwasanaeth yn gweithredu o ganolbwynt o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a bydd y staff yn gallu teithio o fewn y fwrdeistref fel y bo'n briodol. Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael ac yn effeithiol.

Bydd y contract hwn yn cael ei ddyfarnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am o leiaf tair blynedd gydag estyniad posib, yn amodol ar adolygiadau a pherfformiad boddhaol, am ddwy flynedd pellach (uchafswm hyd y contract yw pum mlynedd). Bydd y darparwr llwyddiannus yn darparu gwasanaeth hyblyg, gan weithio mewn partneriaeth ac yn gydweithredol â'r Cyngor yn unol â manyleb y contract ac argymhellion a wneir mewn adolygiadau rheolaidd gan brynwyr/darparwyr.

Gwerth blynyddol y contract yw £72,788 a rhagwelir y bydd y swm cyfan yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Gwneir taliad y contract ar sail 80:20; bydd 80% o werth y contract yn cael ei dalu'n chwarterol ac ymlaen llaw. Ni fydd yr 20% arall ond yn cael ei dalu os yw'r Cyngor yn fodlon bod y darparwr llwyddiannus yn cyflawni canlyniadau'r fanyleb.

Cyfarwyddiadau i gyflenwyr

Ar gyfer y tendr hwn, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am ddefnyddio technoleg E-dendro. Bydd gofyn i fudiadau gwblhau a chyflwyno eu ceisiadau drwy'r ddolen hon:

<https://etenderwales.bravosolution.co.uk/web/login.shtml>

(Project_ 25755 - Advocacy Services Wrexham; itt_39242 - Advocacy Services Wrexham 2013)

Cyfeirnod: ASC Advocacy 2013

Dyddiad cau: 19 Mehefin 2013

Enw swyddogol a chyfeiriad yr awdurdod sy'n cynnig y contract

Mudiad: WG SF - CyMAL

At sylw: Alyson Tyler, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth SY23 3SG. Ffôn 0300 062 2102, ebost Alyson.tyler@wales.gsi.gov.uk, www.wales.gov.uk/cymal.

Teitl y cais am ddyfynbris

Datblygu fframwaith ansawdd newydd ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru

ITQ i ddatblygu fframwaith ansawdd newydd ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn galluogi'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ryddhau ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn ogystal â chefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru.

Cyfeirnod: WPLS-F5-01

Dyddiad cau: 10 Mehefin 2013

Adnoddau (yn Saesneg yn unig)

[Cyfraddau teithio a chynhaliaeth](#) (33 Kb)

[Amodau'r contract - ymchwil](#) (122 Kb)

[Manyleb ar gyfer datblygu fframwaith ansawdd ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru](#)
(273 Kb)

[Nôl i'r cynnwys](#)

Cyllid

[Cyllid](#)

[Bwrsariaeth](#)

Cyllid

Newidiadau yn rhaglen grantiau Plant mewn Angen

Mae BBC Plant mewn Angen wedi cyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer ei raglen grantiau bach a phrif grantiau. Yn y strategaeth newydd, bydd o leiaf 100 yn fwy o grantiau bach yn cael eu rhoi eleni. Bydd gan y rhaglen bum rownd grantiau'r flwyddyn, yn lle'r pedair a gafwyd o'r blaen, ac mae'r amser ymateb yn cael ei ostwng o 14 wythnos i rhwng wyth a deg wythnos. Mae manylion pellach ar gael ar www.bbc.co.uk.

(Ffynhonnell: Fundraiser, Mai 13)

Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Galwad am geisiadau Catalydd

Dim ond un cyfle arall sydd i wneud cais am y rhaglen Catalydd treftadaeth: meithrin gallu godi arian ar gyfer grantiau rhwng £3,000 a £10,000. Mae'r cynllun grantiau hwn ar agor i sefydliadau treftadaeth, neu bartneriaethau sefydliadau treftadaeth ledled y DU, a'i fwriad yw meithrin gallu codi arian ac annog rhagor o roddion preifat ar gyfer treftadaeth. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer y rhaglen yma fydd 16 Awst 2013. Ewch i'r [wefan](#) am fwy o wybodaeth am y rhaglen ac am wybodaeth ar yr ystod o [ganlyniadau](#) rydym am eu cyflawni gyda'n cyllid.

[HLF - Y Rhyfel Byd Cyntaf: Y Pryd Hynny a Nawr](#)

Mae cymorth ar gael i brosiectau cymunedol sy'n archwilio, diogelu ac yn rhannu etifeddiaeth y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma rai enghreifftiau o'r etifeddiaeth y gallai prosiectau edrych arnynt: lleoedd lleol sydd â chysylltiadau o unrhyw fath â'r Rhyfel Byd Cyntaf; gwrthrychau, ffotograffau, dogfennau, llyfrau a phapurau newydd sy'n adrodd hanes unigolion a chymunedau yr effeithiodd y rhyfel arnynt; ffosydd hyfforddi neu feysydd awyr; adeiladau neu strwythurau a ddefnyddiwyd yn y rhyfel neu yr effeithiodd y rhyfel arnynt, a llawer mwy. Dylai prosiectau alluogi cymunedau i wybod mwy am etifeddiaeth y Rhyfel Byd Cyntaf a rhoi budd i ystod eang o bobl. Mae grantiau rhwng £3,000 a £10,000 ar gael i fudiadau di-elw a phartneriaethau a arweinir gan fudiadau di-elw yn y DU. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd hyd at 2018.

(Ffynhonnell: Grantfinder Newsflash, 17/5/13)

Bwrsariaeth

Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth 2013-14

Mae'r Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth yn rhoi cyfle i chi fynd ar daith ddysgu fythgofiadwy am arweinyddiaeth. Fel rhan o Academi Wales, rydym yn falch iawn o allu cynnig ystod estynedig o gyfleoedd dysgu gweithredol i arweinwyr y sector cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae pob rhaglen wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr, a dewiswyd pob un o'r rhaglenni ar sail eu henw da yn rhyngwladol a'u perthnasedd i'r heriau dysgu sy'n wynebu arweinwyr yng Nghymru.

Am y tro cyntaf, rydym yn falch o gyhoeddi bod y Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth yn cynnig bwrsariaeth lawn o 100% i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu rhaglen ddysgu weithredol a arweinir gan sefydliad byd-enwog.

Mae'r sefydliadau academaidd a ddewiswyd ar gyfer 2013-14 yn cynnwys Ysgol Fusnes Ashridge, Y Ganolfan Arweinyddiaeth Greadigol - Brwsel, Ysgol Rheolaeth Prifysgol Cranfield, Ysgol Llywodraethu John F Kennedy Harvard, Hemsley Fraser ac Ysgol Busnes Saiid. Ceir mwy o fanylion yn y llyfryn.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2013
Cyfweiliadau'r Panel Datblygu: i'w cynnal yn yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 5 Awst 2013

Ewch i wefan [Academi Wales](http://AcademiWales.gov.uk) neu ebostiwch TalentManagement@wales.gsi.gov.uk am fwy o wybodaeth.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Cyffredinol

Fformat cylchlythyr pwrpasol newydd i WCVA

Yn gynharach eleni, lansiodd gwefan newydd a gwell i WCVA - www.wcva.org.uk. Rydym yn gobeithio eich bod wedi cael amser i fwynhau'r safle ac edrych ar ei nodweddion newydd, fel gallu archebu llyfryn yn ein digwyddiadau ar-lein a safle penodol i faterion ymddiriedolwyr a llywodraethu.

Gallwch nawr gofrestru ar gyfer eich e-gylchlythyr pwrpasol eich hun, fel eich bod yn dewis y pynciau rydych chi eisiau cael gwylbodaeth amdanynt.

Os ydych chi'n awyddus i gael y newyddion diweddaraf am faterion ymddiriedolwyr a llywodraethu, neu bolisiâu a gwleidyddiaeth, gallwch deilwra eich cylchlythyr i ganolbwyntio ar y pynciau hynny yn unig. Ar y llaw arall, os oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfleoedd gwirfoddoli a chyllido, neu gyrsiau hyfforddi, cewch wybodaeth am y rhain hefyd.

Y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw mynd i dudalen mewngofnodi'r aelodau yn ein safle a mewngofnodi er mwyn newid eich dewisiadau o dan yr adran 'dewisiadau cylchlythyr'. Os nad ydych chi'n gwybod eich cyfrinair ar gyfer y safle newydd eto, defnyddiwch yr opsiwn 'ailosod cyfrinair' gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost cysylltiedig â'ch aelodaeth o WCVA, a bydd cyfrinair newydd yn cael ei anfon atoch chi. Cyfrinair dros dro fydd hwn a gellir ei newid i ryw beth haws ei ddefnyddio gan ddefnyddio'r opsiwn 'newid cyfrinair'.

Pam oedi mwy? Cofrestrwch heddiw i wneud yn siŵr eich bod yn derbyn eich e-gylchlythyr pwrpasol eich hun.

Network Jobs

Mae rhifyn diweddaraf WCVA o Network Jobs ar gael [yma](#). Os hoffech chi gofrestru i gael copïau yn y dyfodol, anfonwch e-bost at help@wcva.org.uk neu ffonio'r Lein Gymorth ar 0800 2888 329.

Galluogi gweithwyr i adrodd twyll mewn elusennau yn ddi-enw

Mae elusen Crimestoppers wedi lansio gwasanaeth ffôn i gymryd gwybodaeth yn ddi-enw gan bobl sydd â gwybodaeth neu amheuaeth a sail gadarn iddi fod aelod o elusen, ni waeth a yw'n rheolwr, yn aelod o staff neu'n wirfoddolwr, yn bod yn anonest ac yn cyflawni twyll. Gweler datganiad newyddion Crimestoppers ar <http://preview.tinyurl.com/bsbp2xz> neu wefan y gwasanaeth <http://www.charityfraudline.co.uk> neu'r rhif ffôn riportio 08000 232 101.

(Ffynhonnell: Cylchlythyr VolResource Rhif 567)

Newidiadau yn ffurflenni blynyddol a chofrestr gyhoeddus elusennau

Mae'r Comisiwn Elusennau (Cymru a Lloegr) yn gwahodd sylwadau ar newidiadau arfaethedig yn y Ffurflen Flynyddol ac yng nghynnwys y Gofrestr Elusennau o 2014 ymlaen. Datganiad newyddion y Comisiwn http://www.charitycommission.gov.uk/RSS/News/pr_annual_return_consultation.aspx, neu dyma'r ymgynghoriad ei hun <http://preview.tinyurl.com/qgkwl67>. Dylid ymateb erbyn 17 Gorffennaf.

(Ffynhonnell: Cylchlythyr VolResource Rhif 568)

Mix it Mean

Prosiect eiriolaeth gan gymheiriaid yw Mix it Mean sy'n cael ei gynnal gan wirfoddolwyr ifanc, anabl a BME rhwng 16 a 24 oed. Mae'n darparu eiriolaeth, trwy ieithoedd cymunedol, er mwyn goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl BME rhag cael mynediad at eiriolaeth a chymorth. Mae'r prosiect yn cael ei ddylunio a'i gynnal gan y gwirfoddolwyr ifanc, felly, byddant yn chwarae rhan lawn yn rhedeg y prosiect gyda chymorth cydlynedd gwirfoddolwyr y prosiect. Bydd y prosiect ar waith am oddeutu chwe wythnos dros wyliau'r haf, felly, ni fydd yn ymyrryd ag astudiaethau'r bobl ifanc. I gael mwy o wybodaeth neu os oes gennych gwestiwn, anfonwch neges i cathy.rogers@diversesecymru.org.uk neu ffoniwch: 029 2036 8888.

Cynhadledd Strategaeth Olgw Cymru - gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall

Ar 22 Mai, cynhaliodd grŵp Gweithredu Strategaeth Olgw Cymru gynhadledd yng Nghaerdydd i edrych ar wella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall. Roedd 80 o gyfranogwyr o bob rhan o Gymru yn y gynhadledd, gan gynnwys llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Ar hyn o bryd mae bron i 100,000 o bobl yng Nghymru wedi colli eu golwg ac mae disgwyl i'r ffigwr hwn ddyblu erbyn 2050. Amcangyfrifir bod colled golwg yn costio £370 miliwn y flwyddyn yng Nghymru, ond mae modd osgoi hanner yr holl achosion o golli golwg.

Mae'r Grŵp nawr yn edrych ymlaen at gam nesaf y cynllun (2014-2018), a threfnodd y gynhadledd i edrych ar y ddau faes y mae pobl ddall a rhannol ddall yn dweud sy'n golygu fwyaf iddynt - mynediad at wasanaethau cymdeithasol (a gwasanaethau adsefydlu yn benodol) a mynediad at drafnidiaeth - dod o hyd i ffordd y gall y rheini yn y gynhadledd gydweithio'n well yn ystod y cam nesaf er mwyn sicrhau gwir welliannau i bobl ddall a rhannol ddall.

Bydd adroddiad llawn o'r gynhadledd ar gael yn fuan. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch ag Alexandra McMillan (Pennaeth Dros Dro Materion Allanol, RNIB Cymru): alexandra.mcmillan@rnib.org.uk; 02920 449583.

Gwefan yn dangos newidiadau yng ngweithlu'r sector gwirfoddol

Mae'r wefan newydd ar gyfer Almanac 2013 Gweithlu Sector Gwirfoddol y DU, <http://www.3rdsectorworkforce.org.uk>, sydd wedi'i dylunio i fod yn hawdd ei defnyddio, yn tynnu ar ddegawd o ddata awdurdodol i edrych ar ffyrdd mae gweithlu'r sector wedi newid. Mae wedi'i chynhyrchu gan bartneriaeth o Sgiliau - Third Sector, NCVO a Chanolfan Ymchwil y Trydydd Sector. Mae'r datganiad newyddion yn rhoi rhai canfyddiadau allweddol, <http://preview.tinyurl.com/cz53y9f> (Ffynhonnell: Cylchlythyr VolResource Rhif 567)

Wishgenie yn cynnig llwyfan torfgyllido am ddim i grwpiau ac elusennau lleol

Llwyfan torfgyllido newydd yw Wishgenie sy'n galluogi grwpiau a rhoddion cymdeithasol 'i wireddu breuddwydion'. Mae'n cynnig amrywiaeth o offer codi arian, gwirfoddoli a phrynu gan fwriadu dod â chymaint o roddion pobl â phosib at ei gilydd mewn un lle. Gellir defnyddio'r wefan i wneud y canlynol: codi arian ar gyfer ysgolion, elusennau a mudiadau di-elw megis eglwysi neu grwpiau gwirfoddol; casglu nawdd ar gyfer ras rhedeg neu ddigwyddiad elusennol; recriwtio gwirfoddolwyr; hel arian at ei gilydd i brynu anrheg penblwydd neu briodas i ffrind; rhoi i achos da fel rhan o'ch siopa bwyd wythnosol. Mae manylion pellach ar gael ar www.wishgenie.com/ (Ffynhonnell: UK Fundraising Weekly, 23/5/13)

[Nôl i'r cynnwys](#)

Newyddion gwyrdd

[Digwyddiadau gwyrdd](#)

[Newyddion a pholisi gwyrdd](#)

[Cyllido gwyrdd](#)

Digwyddiadau

Graddfa Wythnos yr Hinsawdd 2013

Yn ystod Wythnos yr Hinsawdd ym mis Mawrth eleni cynhaliwyd rhyw 3,500 o ddigwyddiadau gyda hanner miliwn o bobl yn cymryd rhan ynddynt ar hyd y Deyrnas Unedig. Roedd llawer o sylw ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd - Wythnos yr Hinsawdd oedd y trend uchaf ar Twitter. Bu i dros 1,300 o fudiadau hyrwyddo Wythnos yr Hinsawdd ymlaen llaw a chynhaliodd 2,800 ohonynt ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos.

Dyddiadau Wythnos yr Hinsawdd 2014

Mae'n dda gennym gyhoeddi mai dyddiadau Wythnos yr Hinsawdd y flwyddyn nesaf fydd **3-9 Mawrth 2014**. Cofiwch nodi'r wythnos yn eich dyddiaduron.

Dywedodd 94% o'r rheini a gynhaliodd ddigwyddiadau ar gyfer Wythnos yr Hinsawdd eleni eu bod yn bwriadu gwneud hynny eto'r flwyddyn nesaf.

Ynglŷn ag Wythnos yr Hinsawdd

Nod Wythnos yr Hinsawdd yw hyrwyddo ffyrdd y gall pobl fyw a gweithio'n fwy cynaliadwy, a thrwy hynny fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dyma [ffilm fer arlein](#) ynglŷn ag Wythnos yr Hinsawdd.

Newyddion a Pholisi

Dolen i [Newid yn yr Hinsawdd](#) WCVA

Darllenwch y blog diweddaraf gan [Amgylchedd Cymru](#)

Darllenwch y blog diweddaraf gan [Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol](#)

Darllenwch gylchlythyr diweddaraf [Cynnal Cymru - Sustain Wales](#)

Darllenwch y cylchlythyr chwarterol gan [Cymorth Cynllunio Cymru](#)

Darllenwch y newyddion diweddaraf gan [Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni](#) a chofrestru i gael yr e-fwletin misol.

Darllenwch y newyddion diweddaraf gan [Yr Ymddiriedolaeth Carbon](#) a chofrestru i gael e-gylchlythyrau.

Darllenwch gylchlythyr diweddaraf [Cadwch Gymru'n Daclus](#)

Darllenwch gofnodion cyfarfod diwethaf y [Comisiwn ar Newid yn yr Hinsawdd](#)

Cysylltwch â Rita Singh i gofrestru i dderbyn yr e-gylchlythyr newydd gan Ynni Cymunedol Cymru - rita@cynnalcyrmru.com neu edrychwch ar eu newyddion diweddaraf yn <http://www.communityenergywales.org.uk>

Newyddion Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi comisiynu Regen SW i drefnu arolwg o sefydliadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru

Bydd manylion yr arolwg yn eu galluogi i lunio rhestr gynhwysfawr o brosiectau a'u dosbarthu o ran technoleg neu ardal awdurdod lleol. Wrth drefnu'r arolwg, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cael gwell dealltwriaeth o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru mewn ffurf a all gael ei ddefnyddio i gyfarwyddo penderfyniadau polisiâu.

Mae Regen SW yn gwmni di-elw ac mae'r [aelodau](#) a'r [cyfarwyddwyr](#) yn cynnwys unigolion o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus. Lawrlwythwch [ffurflen a chyfarwyddiadau'r arolwg yma](#).

Mae croeso i chi gysylltu â Tim Loe drwy ffonio 01392 494 399 neu anfon neges i tloe@regensw.co.uk, os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae **Ymwybyddiaeth o Lifogydd Cymru** yn cynorthwyo cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd ac yn darparu arfau a gwybodaeth iddynt sydd eu hangen i ymateb yn briodol yn ystod digwyddiad o orlifo. Darllenwch 'Eich newyddion llifogydd cymunedol' [yma](#) i gael newyddion am lifogydd a gwybodaeth o gymunedau ledled Cymru.

Cyllido

Cliciwch [yma](#) i weld ein Taflen Wybodaeth am Adnoddau Cyllido ar gyfer Prosiectau Newid yn yr Hinsawdd.

[Mae Amgylchedd Cymru wedi cael £100,000 yn ychwanegol ar gyfer y cynllun grant i Gefnogi Byw'n Gynaliadwy i helpu mudiadau i gynnal mwy o brosiectau byw'n gynaliadwy ledled Cymru.](#)

Mae cronfa'r Cynllun i Gefnogi Byw'n Gynaliadwy wedi'i chynyddu i bron i £400,000 ar gyfer prosiectau a all redeg tan 30 Mehefin 2014. Mae grantiau hyd at £50,000 ar gael i brosiectau a fydd yn ysgogi newidiadau hirdymor mewn ymddygiad a ffordd pobl o fyw a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru ac yn helpu busnesau, mudiadau a chymunedau i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Os hoffech chi gynnwys unrhyw beth yn rhifyn nesaf 'newyddion gwyrdd' cysylltwch â Jessica McQuade yn WCVA: jmcquade@wcva.org.uk.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Blogiau a Cyhoeddiadau JRF

Cafodd y blogiau a'r cyhoeddiadau canlynol eu hychwanegu i wefan Sefydliad Joseph Rowntree (JRF).

Cyhoeddiadau a blogiau newydd o'r wythnos a ddechreuodd ar 20 Mai 2013

[Cartrefi Gofal: Risgiau a Pherthnasau](#)

Diweddariad rhaglen: Ymddengys nad yw'r materion sy'n effeithio ar gartrefi gofal byth yn newid. Pam ddim? Mae John Kennedy wedi lansio ymchwiliad blwyddyn ar sut i sicrhau bod cartrefi gofal yn llwyddo.

[Pobl hŷn ag anghenion cymorth uchel mewn tai â gofal](#)

Mae tai â gofal yn cynnig model addawol i wella ansawdd bywyd pobl hŷn ag anghenion cymorth uchel, ond mae hefyd yn gosod heriau.

Ymchwil gan Sue Garwood

[Ysbryd '45: mae'n hanfodol ein bod yn dysgu o'r gorffennol](#)

Mae ffilm Ken Loach yn amlygu peryglon peidio â dysgu o'r gorffennol. Wrth siarad yn yr Ŵyl Syniadau, bu Julia Unwin yn trafod beth fyddai Beveridge yn ei ddweud nawr.

[#BeveridgeRebooted: pam mae arnom angen trefn newydd ar gyfer y system les nad oes ffydd ynddi](#)

Mae traethawd New Statesman yn awgrymu y gallai'r diwygiad lles niweidio dyfodol economaidd y Deyrnas Unedig. Mae arnom angen system les newydd sy'n gweddu i anghenion modern yr economi a chymdeithas, meddai Julia Unwin.

[Helpwch fi i ddarganfod sut i ddatrys argyfwng gofal y DU](#)

Byth ers i mi ddechrau gweithio fel cynorthwydd gofal yng nghanol y 1980au, mae cartrefi gofal wedi bod mewn rhyw fath o argyfwng. Dyma flog gan John Kennedy ar ei ymchwiliad blwyddyn ar sut i sicrhau bod cartrefi gofal yn llwyddo.

[Prif symbylydd diweithdra yw marchnadoedd swyddi sydd wedi dirywio, nid y bobl sydd heb waith](#)

Prif symbylydd diweithdra ac anweithgarwch economaidd mewn 'ghettos budd-daliadau' yw marchnadoedd swyddi sydd wedi dirywio, nid agweddau'r bobl, meddai Chris Goulden, wrth ymateb i ddatganiad i'r wasg.

[Mesurau cynilo yn bygwth cydnerthedd cymunedol yng Nghymru](#)

Bydd angen ymateb ar y cyd gan adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol er mwyn trechu tlodi yng Nghymru, meddai Michael Trickey.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Bwletin Ymgynghorol Llywodraeth Leol

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau WCVA sy'n ddefnyddio termau ac amodau y 'Llyfr Gwyrdd'. Maent yn cael ei darparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Mae bwletin ymgynghorol 601 ar gael yn y [wefan](#) a ganlyn.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Polisi

Ymgynghoriadau

Bwletin ymgynghori WCVA

Wele ein gwefan [yma](#) i dadlwytho y rifyn diweddaraf o'n Bwletin Ymgynghori wythnosol yn Saesneg a Chymraeg.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Hyfforddiant

[Hyfforddiant WCVA](#)

[Hyfforddiant arall](#)

Hyfforddiant WCVA

Bandiau prisiau

- A Aelodau WCVA
- B Mudiadau Gwirfoddol a chymunedol
- C Cymhoeddus/Preifat

Gwahaniaethu yn y gweithle

[19 June 2013](#) - Caerdydd (sesiwn bore)

[9 Hydref 2013](#) - Caerfyrddin (sesiwn bore)

Arweinir y cwrs gan arbenigwyr o gwmni Hugh James a bydd yn rhoi i reolwyr mudiadau trydydd sector yr hyder a'r sgiliau i gydnabod effaith lawn yr achosion gwaethaf o fwlio ac aflonyddu, a'r gallu i ddelio gyda'r materion anghyfforddus hyn yn uniongyrchol.

Newydd

Fe fydd y cwrs yn codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall camreoli achosion o fwlio ac aflonyddu greu sefyllfaoedd gwaith amhosib, achosi drwgdeimlad, ac mae potensial iddynt arwain at hawliadau drud i Dribiwnlys Cyflogaeth.

Ar ôl gwneud y cwrs hwn, bydd cyfranogwyr yn gallu adnabod y strategaethau anffurfiol cynnar y dylid eu rhoi ar waith er mwyn sylwi ar ymddygiad amhriodol a'i atal. Byddant hefyd yn ymwybodol o egwyddorion y gweithdrefnau ffurfiol y dylid eu rhoi ar waith ar gyfer y cwynion mwyaf dirifol.

Bydd y cwrs rhyngweithiol hwn hefyd yn ymdrin â chwmpas y ddeddfwriaeth gwahaniaethu yn y gweithle drwy gynnal trafodaeth grŵp ac edrych ar astudiaethau achos ar DVD.

Rheoli Newid Sefydliadol

Newydd

[3 July 2013](#) - WCVA, Caerdydd (sesiwn bore)

[22 Hydref 2013](#) - Caerfyrddin (sesiwn bore)

Mae rheoli newid sefydliadol wedi dod yn waith rhy gyfarwydd o lawer drwy gydol y wasgfa economaidd, yn enwedig i fudiadau'r trydydd sector.

Gorfodir llawer ohonom i adolygu ein strategaethau busnes, ein gweithle a'n gorbenion gyda golwg ar dorri costau a goroesi'r dirwasgiad, tra mae cyfleoedd cyllido newydd yn golygu'n aml ein bod yn ehangu ein mudiadau.

Rhaid i reolwyr yn y trydydd sector allu cyflwyno a rheoli newid mewn ffordd effeithlon ac amserol er mwyn cyflawni amcanion busnes, a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoli cysylltiadau cyflogaeth yn effeithiol o fewn y gweithle a chydag unrhyw undebau llafur cydnabyddedig.

Gyda'r amcanion hyn mewn golwg, bydd y cwrs hwn yn archwilio:

- pwysigrwydd cyfathrebu ac amseru da drwy gydol y broses ad-drefnu.
- rhwymedigaethau cyfreithiol y cyflogwr ac ystyriaethau ymarferol wrth ad-drefnu mudiad, ymgymryd ag ymarfer diswyddo a diwygio telerau ac amodau cyflogaeth.

Hyfforddiant arall gan Hugh James

Proses Tribiwnlys Cyflogaeth - [Tachwedd 2013](#) ac [Ionawr 2014](#)

Delio gyda chamau disgyblu a chwyno - [Rhagfyr 2013](#) a [Mawrth 2014](#)

[Dylanwadu ar ddeddfwriaethau Cymru](#)

Newydd

Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013 - Caerdydd

Nod y cwrs hyfforddi undydd hwn yw cynorthwyo staff yn y trydydd sector i weithio gyda gwleidyddion lleol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau o ran polisi a deddfwriaeth.

Mae Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn cael eu llobio gryn dipyn ond ar y cyfan maent yn awyddus i gefnogi achosion maent yn credu ynddynt, felly, sut allwn ddwyn perswâd arnynt i gefnogi'r ymgyrchoedd y credwn ni ynddynt? Sut allwn feithrin yr hyder i gyfranogi yn y broses wleidyddol?

P'un ai ydych am ddylanwadu ar benderfyniadau'r Llywodraeth, deddfwriaeth y Cynulliad neu fanifestos y prif bleidiau gwleidyddol, fe fydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall y broses wleidyddol a'i gwneud iddi weithio i'ch mudiad chi.

Fe fydd y cwrs hwn yn helpu i ddatblygu'r sgiliau i gael amcanion eich mudiad yn uwch ar restr eu blaenoriaethau.

Fe fydd y cwrs yn cynnwys:

- trosolwg o'r broses lobïo a'r broses wleidyddol
- sut i ddylanwadu ar y broses wleidyddol o bolisi i Ddeddf
- cwmpasu'ch mater er mwyn dylanwadu ar Weinidogion
- gweithio gyda gwleidyddion lleol

Drwy wneud y cwrs hwn, fe fyddwch yn:

- cynyddu'ch hyder i gyfranogi yn y broses wleidyddol
- gallu cwmpasu eich amcanion o ran polisi ac adnabod prif benderfynwyr
- datblygu'ch hyder i ffurfio perthynas â gwleidyddion lleol

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at staff sy'n gweithio mewn unrhyw fudiad trydydd sector yng Nghymru, aelodau o fyrddau mudiadau gwirfoddol ac elusennol, ac unrhyw un sydd am ddeall yn well sut y gall y sector fod yn agosach at y broses wleidyddol.

Ffioedd: **A** £125 **B** £155 **C** £185

*** Llefydd dal ar gael - archebwch nawr ***

Troi eich syniadau yn incwm

Newydd

[25 Mehefin - Aberystwyth](#)

[2 Gorffennaf - Merthyr Tydful](#)

Fe fydd y cwrs yn canolbwyntio ar astudiaethau achos ac enghreifftiau ymarferol yn dangos yr egwyddorion sylfaenol a fydd yn galluogi'ch mudiad i gofleidio risg ac arloesedd heb symud i ffwrdd o'ch amcanion cymdeithasol a chymunedol. Darperir gwybodaeth ar fathau o incwm a phwysigrwydd amrywio incwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd eich mudiad.

Elfennau sylfaenol o reoli prosiect ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr EU

[2 Gorffennaf - Caerdydd](#)

Os ydych yn newydd i brosiectau'r UE, wedi dod i ganol prosiect ac am sicrhau eich bod yn dilyn yr arferion gorau neu os oes angen i chi ddysgu ble gallech fod wedi gwneud camgymeriadau yn y gorffennol, yna gallai'r cwrs hwn fod yn addas ar eich cyfer chi.

Am ddim i brosiectau y trydydd sector a ariennir gan Ewrop. (noddwyr neu gontractwyr)

Fodd bynnag, os nad ydych yn ymwneud â datblygu a/neu gyflwyno prosiectau a ariennir gan Ewrop, gweler y band prisiau isod Ffioedd.

Ysgrifennu cwestiynau effeithiol

[2 Gorffennaf - Casnewydd](#)

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys nodi pryd mae'n addas i ddefnyddio arolwg, ysgrifennu cwestiynau effeithiol, cynnal arolygon a dadansoddi'r canfyddiadau.

Rheoli newid sefydliadol

Newydd

[3 Gorffennaf - Caerdydd](#)

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i reolwyr yn y trydydd sector i reoli newid sefydliadol yn effeithiol.

Golygu clywedol

[4 Gorffennaf - Pen y bont ar Ogwr](#)

Bydd cyfranogwyr yn dysgu'r sgiliau adrodd stori a'r sgiliau technegol sylfaenol sydd eu hangen i gynhyrchu stori glywedol a gynhyrchir o gyfweiliad. Bydd y cwrs yn ymarferol ac yn rhoi cyngor a hyfforddiant yn y technegau cyfweld mwyaf effeithiol yn ogystal â hyfforddiant yn y sgiliau golygu a recordio angenrheidiol.

Cyfryngau cymdeithasol uwch ar gyfer e-gyfranogaet

[5 Gorffennaf - Wrecsam](#)

Os ydych chi eisoes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaeth, ond yr hoffech wybod sut y mae gwella eich cynnwys a'ch cyrhaeddiad, cael awgrymiadau da a syniadau newydd, yna dyma'r sesiwn i chi!

Dylanwadu ar ddeddfwriaethau Cymru

Newydd

[Dydd Mercher 10 Gorffennaf - Caerdydd](#)

Nod y cwrs hyfforddi undydd hwn yw cynorthwyo staff yn y trydydd sector i weithio gyda gwleidyddion lleol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau o ran polisi a deddfwriaeth.

Sgiliau hwyluso effeithiol

Agored Cymru

[10/11 Gorffennaf a 11 Medi - Llandudno](#)

Galluogi cyfranogwyr i ddeall rôl yr hwylusydd, i wella eu sgiliau presennol a dysgu ac ymarfer ystod o sgiliau a thechnegau hwyluso.

Cymhorthfa Cofrestru Cymorth Rhodd

[18 Gorffennaf - Caerdydd](#)

Mae Cymorth Rhodd yn galluogi elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol i adhawlio'r dreth a delir ar roddion gan unigolion - am bob punt a roddir i'ch mudiad chi, gallwch hawlio 25 ceiniog yn ychwanegol gan Gyllid a Thollau EM. Drwy ymgorffori'r dewis hwn yn eich strategaeth codi arian, gallwch greu mwy o gyllid digyfngiad ar gyfer eich mudiad. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar y broses o gofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd a'i hawlio mewn pum cam syml, a bydd hefyd yn ymdrin â'r newidiadau i'r broses yn sgil cyllideb.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.wcva.org.uk. I archebu ewch ar-lein [WCVA's wefan](#) neu darlwytho [ffurlen gais](#) ac e-bostiwch training@wcva.org.uk neu ffoniwch ddesg gymorth CGGC ar 0800 2888 329.

[Nôl i'r hyfforddiant](#)

Hyfforddiant arall

Partneriaeth a Thirwedd newydd Cyfiawnder Cymunedol

12 Mehefin 2013, Aberystwyth

26 Mehefin 2013, Casnewydd

Trefnir y gynhadledd hon gan fenter Cyfiawnder Cymunedol Cymru, mewn partneriaeth gyda Clinks, er mwyn edrych ar y newidiadau y mae'r polisi cyfiawnder troseddol newydd yn eu hachosi, ar adeg pan fo newidiadau hefyd yn y polisi cymdeithasol a phan fo'r amgylchedd economaidd yn un heriol, ac yng nghyd-destun y cymysgedd cymhleth o wasanaethau sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli, sy'n unigryw i Gymru. Mae'n cynnwys cyfraniad gan amrywiol sectorau ar y ffordd y mae'r dirwedd newydd yn effeithio ar gomisiynwyr, darparwyr, troseddwyr (gan gynnwys troseddwyr ifanc yn trosi i wasanaethau oedolion) a'u teuluoedd, dioddefwyr a'r gymuned ehangach. I gadw'ch lle, anfonwch ebost at [Simon Dowling](#), manylion pellach ar gael [yma](#).

Tai a Chymorth i Gyn-filwyr yng Nghymru

20 Mehefin 2013, Canolfan Orbit, Merthyr Tudful

Mae Cymorth Cymru yn cynnal digwyddiad hanner diwrnod i ganfod sut y gall personél sy'n gyn filwyr yng Nghymru gael eu gwasanaethu'n well gan wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Ymysg y siaradwyr a'r sesiynau sydd wedi'u cadarnhau y mae: Anerchiad agoriadol gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio; Cyfamodau cymunedol - Graeme Robson, SO2 Military Civil Integration (MCI); Datblygu tai â chymorth ar gyfer personél sy'n gyn filwyr ym Merthyr Tudful - Mike Owen, Cartrefi Cymoedd Merthyr a Paul Thomas, Service Leavers Wales; Model o dai â chymorth arbenigol i gyn filwyr a sut i ail greu hyn yng Nghymru - Geoffrey Willis, Gofal a Chymorth Cristnogol Alabaré. Bydd mwy o sesiynau yn cael eu hychwanegu'n fuan. Mae manylion pellach ar gael gan Lisa Noice, ffôn 029 2055 3687, ebost lisanoice@cymorthcymru.org.uk.

Cynhadledd Shelter Cymru Pobl a Chantrefi

27 Mehefin 2013, Gwesty'r Marriott, Abertawe

Siaradwyr cadarnhaol yn cynnwys: Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Tai a Adfywio, John Bird MBE, Sylfaenydd The Big Issue, Broadcaster Peter Johnson - Cadeirydd. Gellir cael rhagor o fanylion yn marklacey@sheltercymru.org.uk, ffôn 01792 483075.

Credyd Cynhwysol a'r Ddeddf Diwygio Lles

18 Gorffennaf 2013, Caerdydd

Mae Credyd Cynhwysol, sef taliad newydd y llywodraeth i gymryd lle pob budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, wedi'i lansio'n swyddogol. Er ei fod yn dal i gael ei brofi, bydd y budd-dal newydd yn cael ei roi ar waith ar hyd a lled y wlad nes ymlaen eleni. Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â'r canlynol: y credyd cynhwysol newydd; y ffocws cynyddol a roddir ar amodoldeb sy'n canolbwyntio ar waith a'r system sancsiynu, gan gynnwys cyflwyno'r 'ymrwymiad hawlydd' newydd; cynlluniau i gyflwyno 'taliad annibyniaeth bersonol' yn lle'r Lwfans Byw i'r Anabl; diwygiadau'r budd-daliadau tai; system talu mewn amser real; rhoi cap ar gyfanswm dyfarniadau budd-dal yn ôl lefel yr enillion cyfartalog; disodli'r gronfa gymdeithasol ddewisol â 'chymorth lleol'; cyfraniad at gost tai. Mae manylion y cwrs ar gael ar <http://trainonthetracks.com/cardiff-courses/open-courses/welfare-benefits-training/universal-credit-and-the-welfare-reform-bill> neu cadwch eich lle drwy bookings@trainonthetracks.com.

[Nôl i'r cynnwys](#)

Diwedd yr e-hysbys

Derbyn cyfrifoldeb

Nid yw gwybodaeth trydydd parti mewn e-hysbys ar gyfer aelodau WCVA yn golygu bod WCVA yn ategu'r wybodaeth honno. Nid yw WCVA yn derbyn cyfrifoldeb dros safon digwyddiadau, cynnyrch neu wasanaethau a gynigir gan drydydd parti. Er y gwneir pob ymdrech i gyflwyno gwybodaeth gywir, nid yw WCVA na'r golygydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros wall neu hepgoriad yn y testun. Os ydych yn dymuno cael eich tynnu oddi ar y rhestr bost a fyddech cystal a chysylltu a ni ar help@wcva.org.uk.